# Trwydded Addysg CLA
# Telerau ac Amodau

## Cyflwyniad

Mae'r Drwydded hon yn gofnod o delerau CLA wrth iddynt ganiatáu trwydded i Sefydliadau Addysgol yn y Deyrnas Unedig atgynhyrchu darnau o ddeunydd cyhoeddedig lle mae hawlfraint yn bodoli.

**1. Diffiniadau**

**1.1** Yn y Drwydded hon mae gan y termau isod yr ystyron canlynol:

**Personau Awdurdodedig:**

i) mewn perthynas â Chopïau Papur: pob myfyriwr (ac, yn achos myfyrwyr 16 oed ac iau, eu rhieni), staff addysgu a staff eraill (boed dros dro neu'n barhaol), a llywodraethwyr y Trwyddedai;

ii) mewn perthynas â Chopïau Digidol: yr holl unigolion y sonnir amdanynt yn (i) uchod sydd â chaniatâd y Trwyddedai i gael mynediad i'r Rhwydwaith Diogel;

**Gweithiau Hawliau-Electronig CCC:**
y gweithiau hynny a gyhoeddwyd gan Gyhoeddwr Cyfranogol UDA sydd wedi'u rhestru ar wefan CLA fel rhai at ddefnydd digidol neu y gellir eu hailddefnyddio;

**CLA:**
Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf;

**Gwefan CLA:**
www.cla.co.uk neu unrhyw wefan arall y rhoddir gwybod i'r Trwyddedai amdani. Bydd cyfeiriad at restr neu wybodaeth arall sydd ar wefan CLA, neu y gellir cael mynediad atynt drwy wefan CLA neu drwy ddulliau electronig eraill a reolir gan CLA, yn cynnwys unrhyw restr neu wybodaeth o'r fath y dywedir eu bod yn berthnasol yn gyffredinol i bob trwydded CLA ac unrhyw rai y dywedir eu bod yn berthnasol yn benodol i Drwydded Addysg CLA;

**Dyddiad Cychwyn:**
y dyddiad a hysbyswyd i'r Trwyddedai gan CLA, fel arfer ar ddechrau Blwyddyn Drwydded;

**Cwrs Astudiaeth:**
unrhyw gwrs astudiaeth cyflawn neu unrhyw fodiwl neu ran o astudiaethau myfyriwr a ystyrir fel arfer gan y Trwyddedai yn uned arwahanol a hunangynhwysol;

**Copïau Digidol:**
naill ai copïau electronig o Ddeunydd Trwyddedig i'w Sganio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu gopïau a wnaed wrth i Bersonau Awdurdodedig ar gyfer Deunydd Digidol gael mynediad atynt neu eu defnyddio, neu o ganlyniad i hyn, sydd yn y ddau achos yn gopïau uniongyrchol nas newidiwyd o'r gwaith a gopïwyd ac a wneir yn unol â thelerau'r Drwydded;

**Deunydd Digidol:**
delweddau llonydd a thestun o gyhoeddiadau a grëwyd ac a ddosbarthwyd ar ffurf electronig a gyhoeddwyd gan Gyhoeddwr Deunydd Digidol Cyfranogol a Deunydd Gwefannau ac eithrio Deunydd Wedi'i Eithrio. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw deunydd heblaw delweddau llonydd a thestun wedi'i gynnwys yn y Drwydded nac ychwaith unrhyw ddeunydd y cyfeirir ato yn unig, neu y gellir ond cael mynediad ato drwy ddilyn dolen allanol, mewn Deunydd Gwefan neu mewn cyhoeddiad electronig gan Gyhoeddwr Deunydd Digidol Cyfranogol lle nad yw'r deunydd hwnnw ei hun wedi'i gynnwys yn y Deunydd Gwefan neu gyhoeddiad electronig o'r fath;

**Sefydliadau Addysgol**
ysgolion (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd), colegau, canolfannau cyfeirio disgyblion, canolfannau adnoddau, colegau addysg bellach a sefydliadau addysgol eraill yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio sefydliadau addysg uwch;

**Deunydd wedi'i Eithrio:**
y categorïau hynny o waith a gweithiau unigol a nodir ar wefan CLA neu drwyddi neu drwy ddulliau electronig eraill a reolir gan CLA ac y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd gan CLA. Bydd unrhyw ddiwygio o'r fath yn cael ei bostio ar wefan CLA ac yn dod i rym ar y Diwrnod Chwarter nesaf. Er mwyn osgoi amheuaeth, gellir eithrio categorïau gwaith neu weithiau unigol o Ddeunydd Trwyddedig i'w Lungopïo, o Ddeunydd Trwyddedig i'w Sganio neu o Ddeunydd Digidol, neu unrhyw gyfuniad ohonynt;

**Cyfanswm Myfyrwyr CALl:**
cyfanswm nifer myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn (i gynnwys yr holl fyfyrwyr llawn amser a rhan-amser) y Trwyddedai fel y'i hysbyswyd i CLA naill ai gan y ffynhonnell ddata gynrychioliadol fel y'i nodwyd ar wefan CLA, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, y

**The Copyright Licensing Agency Ltd**

Ffôn 020 7400 3100
E-bost cla@cla.co.uk
www.cla.co.uk

CLA Scotland
Ffôn 020 4512 0100
E-bost licence@cla.co.uk

Cofrestrwyd yn Lloegr
Rhif Cofrestru 1690026

Gwasanaeth Data, Cyngor Cyllido'r Alban, yr Adran Addysg neu, os nad oes corff cynrychioliadol yn bodoli sy'n darparu'r wybodaeth hon, gan y Trwyddedai ei hun wedi'i gyfrifo mewn cytundeb â CLA;

**Trwydded:**
y drwydded a ganiateir gan gymal 2;

**Ffi'r Drwydded**
swm y Cyfanswm Myfyrwyr CALl wedi'i luosi gan y gyfradd berthnasol fesul myfyriwr fel y'i hysbysir i'r Trwyddedai o leiaf dri (3) mis cyn dechrau Blwyddyn y Drwydded neu, os yw'n fwy, yr isafswm ffi (os oes un) fel y'i dangosir ar wefan CLA fel sy'n berthnasol i Sefydliadau Addysgol. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan CLA, bydd y gyfradd ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn cynyddu'n awtomatig yn ôl y cynnydd canrannol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y flwyddyn flaenorol fel y'i cyhoeddwyd y mis Hydref cyn dechrau Blwyddyn y Drwydded;

**Blwyddyn y Drwydded:**
oni chynghorir i'r gwrthwyneb, 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol neu 1 Awst mewn unrhyw flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf yn y flwyddyn ddilynol yn dibynnu ar y math o sefydliad addysgol;

**Copïau Trwyddedig:**
naill ai Copïau Papur neu Gopïau Digidol fel y bo'n briodol;

**Deunydd Trwyddedig:**
unrhyw a phob Deunydd Trwyddedig i'w Lungopïo, Deunydd Trwyddedig i'w Sganio a Deunydd Digidol;

**Trwyddedai:**
unrhyw Sefydliad Addysgol y talwyd y Ffi Drwydded briodol mewn cysylltiad ag ef;

**Deunydd Trwyddedig i'w Lungopïo:**
rhifynnau cyhoeddedig gwreiddiol o lyfrau, cylchgronau a chyfnodolion eraill a gyhoeddwyd ar ffurf copi caled yn y Tiriogaethau Mandad Llungopïo lle mae hawlfraint neu unrhyw hawl cronfa ddata yn bodoli, ac eithrio Deunydd wedi'i Eithrio;

**Deunydd Trwyddedig i'w Sganio:**
rhifynnau cyhoeddedig gwreiddiol o lyfrau, cylchgronau a chyfnodolion eraill lle mae hawlfraint neu unrhyw hawl cronfa ddata yn bodoli a gyhoeddwyd ar ffurf copi caled yn y Tiriogaethau Mandad Sganio a Gweithiau Hawliau-Electronig CCC, ac yn y ddau achos, Copïau Papur sy'n deillio oddi wrthynt gan y Trwyddedai, ac eithrio Deunydd wedi'i Eithrio;

**Copïau Papur:**
llungopïau ar bapur o Ddeunydd Trwyddedig i'w Lungopïo gwreiddiol (a chopïau a wneir wedi hynny), argraffiadau papur o Gopïau Digidol a llungopïau ohonynt ac argraffiadau papur o Ddeunydd Digidol Trydydd Parti ond, ym mhob achos, ac eithrio unrhyw gopi ar ffurf electronig;

**Cyhoeddwr Deunydd Digidol sy'n Cymryd Rhan:**
deiliad hawliau sydd wedi cadarnhau i CLA ei fod yn fodlon caniatáu, o dan y Drwydded, ddefnydd o Ddeunydd Digidol lle mae'r Deiliad Hawliau yn berchen ar neu'n rheoli'r hawlfraint ac nad yw wedi tynnu caniatâd o'r fath yn ôl. Ceir rhestr o Gyhoeddwyr Deunydd Digidol sy'n Cymryd Rhan ar wefan CLA a gall CLA ei diwygio o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw ddiwygio o'r fath yn cael ei bostio ar wefan CLA ac yn dod i rym ar y Diwrnod Chwarter nesaf ar ôl i ddiwygio o'r fath gael ei bostio;

**Cyhoeddwr UDA sy'n Cymryd Rhan:**
cyhoeddwr sy'n cymryd rhan yn y cytundeb rhwng y Ganolfan Clirio Hawlfraint (CCC) a CLA fel y rhestrir ar wefan CLA;

**Tiriogaethau Mandad Llungopïo:**
Y Deyrnas Unedig, Yr Ariannin, Awstralia, Awstria, Barbados, Gwlad Belg, Canada (gan gynnwys Québec), Chile, Cyprus, Denmarc, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Ghana, Gwlad Groeg, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, India, Iwerddon, Yr Eidal, Jamaica, Japan, Lwcsembwrg, Malawi, Mecsico, Yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Norwy, Ynysoedd Philippines, Singapore, De Affrica, De Korea, Sbaen, Sweden, Y Swistir, Trinidad a Tobago, Twrci, Unol Daleithiau America a Zambia. Gall y rhestr hon gael ei diwygio o bryd i'w gilydd gan CLA. Bydd unrhyw ddiwygio o'r fath yn cael ei bostio ar wefan CLA a bydd yn dod i rym ar y Diwrnod Chwarter nesaf ar ôl i ddiwygio o'r fath gael ei bostio;

**Cyfradd Ragnodedig:**
y gyfradd llog a ragnodir o bryd i'w gilydd yn unol â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998;

**Diwrnod Chwarter:**
1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref;

**Deiliad Hawliau:**
unrhyw un sy'n berchen ar yr hawlfraint neu'n ei reoli mewn unrhyw Ddeunydd Trwyddedig;

**Tiriogaethau Mandad Sganio:**
Y Deyrnas Unedig, Yr Ariannin, Awstralia, Gwlad Belg, Canada (gan gynnwys Québec), Chile, Cyprus, Denmarc, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Jamaica, Japan, Yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Norwy, Ynysoedd Philippines, Singapore, De Affrica, De Korea, Sbaen, Y Swistir, Twrci ac Unol Daleithiau America. Gall y rhestr hon gael ei diwygio o bryd i'w gilydd gan CLA. Bydd unrhyw ddiwygio o'r fath yn cael ei bostio ar wefan CLA a bydd yn dod i rym ar y Diwrnod Chwarter nesaf ar ôl i ddiwygio o'r fath gael ei bostio;

**Rhwydwaith Diogel:**
rhwydwaith (boed yn rhwydwaith annibynnol neu'n rhwydwaith rhithwir o fewn y Rhyngrwyd) sydd ond ar gael i'r Personau Awdurdodedig sydd wedi'u cymeradwyo gan y Trwyddedai i gael mynediad i'r Rhwydwaith Diogel, y mae gwiriad adnabod yn cael ei ddilysu ar adeg mewngofnodi (ac o bryd i'w gilydd wedi hynny) mewn modd sy'n gyson â'r arfer gorau cyfredol, ac y mae eu hymddygiad yn ddarostyngedig i reoliad gan y Trwyddedai;

**Deunydd Gwefan:**
deunydd ar ffurf delweddau llonydd a thestun a grëwyd ac a bostiwyd ar wefannau Cyhoeddwyr Deunydd Digidol Cyfranogol ac eithrio Deunydd wedi'i Eithrio.

**1.2** Gall pob cyfeiriad at yr unigol yn y Drwydded hon gynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb yn ôl gofynion y cyd-destun, a bydd cyfeiriadau at rywedd yn cynnwys y ddau rywedd.

## 2. Caniatáu trwydded

Trwy hyn, mae CLA yn caniatáu ar y telerau a'r amodau a gynhwysir yma, yr hawl anghyfyngedig i'r Trwyddedai, ac, fel y bo'n berthnasol, i Bersonau Awdurdodedig:

**2.1** wneud, neu ganiatáu gwneud, Copïau Papur;

**2.2** dosbarthu, neu ganiatáu dosbarthu, Copïau Papur i Bersonau Awdurdodedig;

**2.3** sganio Deunydd Trwyddedig i'w Sganio i gynhyrchu Copïau Digidol ar yr amod, yn ddarostyngedig i gymal 7, y bydd y Trwyddedai yn defnyddio ymdrechion rhesymol i ganfod a yw'n tanysgrifio i fersiwn ddigidol o'r gwaith dan sylw ac, os felly, y bydd yn defnyddio'r fersiwn ddigidol honno yn lle creu Copi Digidol trwy sganio;

**2.4** creu Copïau Digidol drwy aildeipio darnau o Ddeunydd Trwyddedig i gyfrifiadur;

**2.5** sicrhau bod Copïau Digidol ar gael, neu ganiatáu hynny, ac yn y ddau achos o fewn y Rhwydwaith Diogel yn unig;

**2.6** gwneud copïau, neu ganiatáu gwneud a dosbarthu, Copïau Hygyrch yn unol â chymal 8;

**2.7** er mwyn osgoi amheuaeth, gall myfyrwyr sy'n defnyddio'r Rhwydwaith Diogel o bell yn y Deyrnas Unedig at ddibenion eu hastudiaethau agor ac edrych ar Gopi Digidol ac argraffu un copi papur ohono, ond ni all myfyrwyr un ar bymtheg oed neu iau ond gwneud Copïau Digidol o dan y Drwydded dan gyfarwyddyd aelod o staff fel rhan o addysgu ffurfiol neu weithgareddau ysgol. Gall myfyrwyr y tu allan i'r Deyrnas Unedig dderbyn Copïau Trwyddedig ond ni fernir bod unrhyw beth yma yn awdurdodi unrhyw gopïo pellach a bydd pob myfyriwr tramor yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl gyfreithiau lleol.

## 3. Cyfnod y drwydded

Daw'r Drwydded i rym ar y Dyddiad Cychwyn a bydd yn parhau o flwyddyn i flwyddyn oni bai neu hyd nes y penderfynir ei therfynu yn unol â chymal 12.

## 4. Taliad

Mae Ffi'r Drwydded, ynghyd â TAW arni, yn daladwy o fewn 30 diwrnod o ddyddiad anfoneb CLA. Mae CLA yn cadw'r hawl i godi llog ar y Gyfradd Ragnodedig ar unrhyw daliad ar ôl dyddiad o'r fath.

## 5. Amodau sy'n berthnasol i greu a defnyddio copïau trwyddedig

**5.1** Ni fydd nifer y Copïau Papur o unrhyw un eitem o Ddeunydd Trwyddedig ar unrhyw un adeg yn fwy na'r nifer sydd ei angen i sicrhau bod un Copi Papur ar gyfer pob aelod o'r staff addysgu a phob myfyriwr yn y dosbarth, y wers neu'r cwrs astudiaeth o fewn y flwyddyn academaidd y mae'r Copïau Papur ar ei chyfer. Pan fwriedir i'r Copïau Papur gael eu defnyddio ar gyfer cyfarfod Personau Awdurdodedig, ni fydd nifer y Copïau Trwyddedig yn fwy na'r nifer sy'n mynychu'r cyfarfod hwnnw.

**5.2** Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na fydd swm y Copïau Trwyddedig, boed yn gopïau sengl neu grynswth, yn uwch na'r ffigur mwyaf o bump (5) y cant o unrhyw argraffiad cyhoeddedig, neu:

- **i)** yn achos llyfr, un bennod gyflawn;
- **ii)** yn achos rhifyn o gyhoeddiad cyfresol, neu set o drafodion cynhadledd, un erthygl gyfan;
- **iii)** yn achos casgliad o straeon byrion, cerddi neu ddramâu, un stori fer, cerdd neu ddrama nad yw'n fwy na deg (10) tudalen;
- **iv)** yn achos adroddiad cyhoeddedig o drafodion barnwrol, adroddiad cyfan un achos.

Ar gyfer Deunydd Digidol nad yw ar gael, neu nad yw wedi'i strwythuro fel arall, ar ffurf llyfr, cylchgrawn neu gyfnodolyn arall confensiynol neu pan nad yw'r Deunydd Digidol wedi'i rannu'n adrannau penodol y gellir eu hadnabod fel cyfwerth â phennod llyfr neu erthygl mewn cylchgrawn neu gyfnodolyn arall, dylai'r Trwyddedai sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyfyngu'r copïo i ddarnau sy'n gyfwerth â'r terfynau a nodir uchod, gan gofio bob amser cymal 5.5, ac yn benodol y gofyniad na fydd unrhyw gopïo yn cymryd lle prynu'r Deunydd Trwyddedig gwreiddiol.

**5.3** Ni chaniateir copïo systematig neu fynych o'r un Deunydd Trwyddedig neu ran ohono ar gyfer unrhyw un dosbarth, gwers neu gwrs astudiaeth o fewn blwyddyn academaidd y tu hwnt i'r terfynau a nodir yng Nghymal 5.2 uchod.

**5.4** Nid yw'r Drwydded yn caniatáu creu Copïau Trwyddedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**5.5** Ac eithrio unrhyw ran o Ddeunydd Gwefan y gellir ei 'wylio am ddim', rhaid i'r Trwyddedai fod yn berchen ar, neu wedi tanysgrifio i, ddarn gwreiddiol neu gopi y mae wedi talu ffi hawlfraint amdano (a fydd yn cynnwys deunydd a gyflenwir naill ai ar ffurf copi caled neu electronig gan gyflenwr sydd wedi'i drwyddedu gan CLA i ddarparu gwasanaeth o'r fath megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflenwyr toriadau papurau newydd a chyflenwyr dogfennau) o unrhyw Ddeunydd Trwyddedig y mae'n ei gopïo, ei sganio neu ei ddefnyddio o dan delerau'r Drwydded hon. Ni ddylai creu Copïau Trwyddedig gymryd lle prynu Deunydd Trwyddedig gwreiddiol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nac ychwaith gomisiynu, atgynhyrchu, hurio neu unrhyw ddefnydd arall o waith artistig gwreiddiol o fewn Deunydd Trwyddedig.

**5.6** Gellir storio a defnyddio Copïau Papur a wneir ym mhob Blwyddyn y Drwydded drwy gydol Blwyddyn y Drwydded ac am weddill unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau o fewn Blwyddyn y Drwydded, ond rhaid eu dinistrio wedyn oni bai bod y copïau mewn cyflwr boddhaol. Rhaid adrodd eto am unrhyw gopïau a gedwir am flwyddyn academaidd ddilynol mewn unrhyw ymarfer casglu data.

## 6. Amodau pellach sy'n berthnasol i greu a defnyddio copïau digidol

**6.1** Ac eithrio fel y caniateir gan y cymal hwn, gan gymal 8 neu drwy statud, ni ddylai'r Trwyddedai olygu, diwygio, trin, ychwanegu at, na dileu o Gopïau Digidol nac awdurdodi hynny, ac ni chaniateir i Gopïau Digidol na Deunydd Digidol gael eu trin yn ddigidol, eu trawsffurfio, eu haddasu o ran lliwio neu arlliwio na'u newid fel arall o dan y Drwydded.

**6.2** Ni chaniateir rhoi Copïau Digidol ar y rhyngrwyd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac ni chaniateir rhoi dolenni hyperdestun (neu debyg) uniongyrchol nac anuniongyrchol iddynt o unrhyw wefan allanol neu drydydd parti. Ni chaniateir storio Copïau Digidol mewn adnoddau agored (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i gronfeydd electronig wrth gefn, llyfrgelloedd digidol na storfeydd sefydliadol) i'r graddau eu bod ar gael i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn Bersonau Awdurdodedig.

**6.3** Ac eithrio fel y caniateir gan y Drwydded, ni chaniateir copïo, lledaenu, cyhoeddi, cyfathrebu, ail-becynnu na dosbarthu Copïau Digidol, na rhoi mynediad iddynt i'r cyhoedd, ar unrhyw ffurf, boed yn gyfan neu'n rhannol.

**6.4** Pan fydd unrhyw waith (gan gynnwys gwaith artistig) sy'n ymddangos o fewn Deunydd Trwyddedig i'w Sganio, neu Ddeunydd Digidol, yn ymgorffori neu'n dangos wrth ei ymyl, enw'r awdur neu greawdwr y gwaith, ni chaniateir creu Copi Digidol o'r gwaith hwnnw oni bai bod y Copi Digidol yn ymgorffori enw'r awdur neu'r creawdwr hwnnw.

**6.5** Heb ragfarnu ei rwymedigaethau a nodir yng Nghymal 6.4, bydd y Trwyddedai yn defnyddio ymdrechion rhesymol i gynnwys, lle bo'n ymarferol, hysbysiad hawlfraint mewn lle amlwg ym mhob Copi Digidol (neu, wedi'i ddangos cyn edrych arnynt) sy'n cynnwys o leiaf enw awdur neu grëwr y gwaith llenyddol neu artistig a theitl y gwaith y gwnaed y copi ohono; pan fydd y deunydd a fydd yn cael ei sganio, ei gopïo neu ei gyrchu neu a ddefnyddiwyd eisoes yn cynnwys hysbysiad hawlfraint a roddwyd gan Ddeiliad Hawliau ar ddogfen, ni fydd yn ofynnol i'r Trwyddedai ychwanegu hysbysiad pellach at y ddogfen.

**6.6** Bydd y Trwyddedai yn dileu o yriannau caled ei holl weinyddion canolog a lleol unrhyw, a phob, Copi Digidol y gallai fod wedi'i storio yno ar ôl derbyn rhybudd gan CLA bod deiliad yr hawlfraint o'r farn bod y Deunydd Trwyddedig sydd wedi'i gynnwys yn y Copïau Digidol yn torri hawlfraint neu ei fod, neu y gallai fod, yn ddifenwol, yn anweddus neu fel arall yn anghyfreithlon.

**6.7** Pan gaiff darnau o Ddeunydd Trwyddedig eu haildeipio ar gyfrifiadur yn unol â chymal 2.4, rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod y darn a aildeipiwyd yn gopi gair am air o'r Deunydd Trwyddedig a'i fod yn cynnwys enw'r awdur a theitl y gwaith y daeth y darn ohono.

**6.8** Er unrhyw beth i'r gwrthwyneb, gellir cyfuno darnau o Ddeunydd Trwyddedig a deunydd arall a grëwyd gan staff addysgu neu fyfyrwyr, cuddio darnau, a dewis, cyfieithu neu addasu darnau perthnasol fel rhan o ymarfer pedagogaidd yn unig a gellir echdynnu darluniau neu ffotograffau ar yr amod bod enw'r awdur a theitl y ffynhonnell wreiddiol yn cael eu nodi ym mhob achos, yn ogystal â'r ffaith ei fod wedi'i addasu ac y perchir hawliau moesol yr awdur.

**6.9** Ni ellir storio Copïau Digidol ar weinydd, na'u mynegeio'n systematig, gyda'r bwriad o greu llyfrgell electroneg neu adnodd gwybodaeth addysgol tebyg o ddarnau o Ddeunydd Trwyddedig ac eithrio:

- **6.9.1** Gellir storio Copïau Digidol lle bo angen at ddibenion technegol neu storio wrth gefn neu lle gallai fod angen cadw copïau digidol o'r fath yn ôl y gyfraith;
- **6.9.2** Gellir storio Copïau Digidol ar weinydd a/neu eu mynegeio'n systematig dim ond at ddibenion, ac am hyd, y dosbarth, y wers, neu'r cwrs astudiaeth y gwnaed ac y bwriadwyd defnyddio'r Copi Digidol ar ei gyfer ac ym mhob achos bydd y Copi Digidol yn cael ei ddileu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y gwnaed y copi;
- **6.9.3** Er cymal 6.9.2, os oes angen Copi Digidol ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol, gellir ei gadw ar yr amod y parheir i roi gwybod amdano mewn unrhyw ymarfer casglu data. Os na fydd ei angen ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol, ond mae'n debygol y bydd ei angen ar ôl hynny, gellir ei gadw ar yr amod mai dim ond i staff sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dysgu digidol neu debyg y bydd ar gael ac os caiff ei ddefnyddio eto rhaid rhoi gwybod amdano mewn unrhyw ymarfer casglu data.

**6.10** Gall y Trwyddedai is-gontractio creu Copïau Digidol i drydydd partïon, ar yr amod bod:

- **6.10.1** y Trwyddedai yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw drydydd parti o'r fath yn gweithredu gweithdrefnau rheoli a diogelwch priodol er mwyn sicrhau cydymffurfio â thelerau'r Drwydded hon;
- **6.10.2** cofnod yn cael ei gadw o bob is-gontract o'r fath, ac o bob Copi Digidol a wneir oddi tanynt, a bod cofnod o'r fath yn cael ei ddarparu ar gais i CLA;
- **6.10.3** pob is-gontract o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r is-gontractwr gydymffurfio, fel y bo'n briodol, ag amodau'r Drwydded sy'n ymwneud â Chopïau Digidol ac sydd, yn benodol, yn gwahardd yr is-gontractwr rhag cadw unrhyw Gopi Digidol (neu unrhyw gopi canolraddol sy'n rhan o greu hwnnw) a byddant yn cynnwys cymal sy'n rhoi'r hawl i CLA gymryd camau'n uniongyrchol yn erbyn unrhyw is-gontractwr o'r fath yn unol â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999;
- **6.10.4** ni fydd y defnydd o is-gontractwr sydd wedi'i leoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cael ei ystyried yn dor cymal 2.7 neu 5.4, ar yr amod y bydd y defnydd o Gopïau Digidol yn y Deyrnas Unedig yn unig, neu yn achos y myfyrwyr tramor y cyfeirir atynt yng nghymal 2.7, eu bod wedi'u cofrestru gyda Sefydliad Addysgol yn y Deyrnas Unedig.

## 7. Amodau pellach sy'n berthnasol i ddefnyddio gweithiau hawliau-electronig CCC

**7.1** Er cymal 2.3, ni all y Trwyddedai ond sganio, neu ganiatáu sganio, copïau caled o Waith Hawliau-Electronig CCC o dan y Drwydded lle nad yw'r un peth ar gael yn rhesymol ar ffurf ddigidol i'r Trwyddedai brynu p'un ai trwy danysgrifiad neu fel arall.

**7.2** Mae'r defnydd o Weithiau Hawliau-Electronig CCC yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau arbennig hynny neu delerau eraill (os oes rhai) sy'n berthnasol i unrhyw waith unigol fel y nodir ar wefan CLA.

## 8. Pobl ag Anabledd Print

**8.1** Bydd amodau'r cymal hwn yn berthnasol dim ond pan fydd Person Awdurdodedig yn Berson ag Anabledd Print yn unol â chymal 8.3.

**8.2** Er amodau cymal 5.2 gall y Trwyddedai, a Phersonau Awdurdodedig fel sy'n briodol, greu a darparu copi o ran neu'r cyfan o unrhyw waith o fewn Deunydd Trwyddedig mewn modd neu ffurf amgen sy'n rhoi mynediad i'r gwaith i Berson ag Anabledd Print gan gynnwys caniatáu i'r Person ag Anabledd Print gael mynediad sydd yr un mor hyblyg a chyfforddus â pherson nad oes ganddynt amhariad ar y golwg nac unrhyw un o'r anableddau y cyfeirir atynt yng nghymal 9.3 ("Copi Fformat Hygyrch") ond rhaid parchu cywirdeb y gwaith a pheidio â chynnwys unrhyw newidiadau i'r gwaith nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn creu Copi Fformat Hygyrch at ddefnydd neilltuedig y Person ag Anabledd Print y crëir y copi ar ei gyfer, ar yr amodau canlynol ac yn ddarostyngedig iddynt:

**8.2.1** rhaid bod y Trwyddedai yn meddu ar fynediad cyfreithlon i gopi gwreiddiol o unrhyw waith y mae'n gwneud Copi Fformat Hygyrch ohono;

**8.2.2** bydd pob Copi Fformat Hygyrch sydd y tu hwnt i'r terfynau a nodir yng nghymal 5.2 yn cynnwys:

**i)** datganiad ei fod yn gopi o'r gwaith gwreiddiol a wnaed o dan Drwydded CLA at ddefnydd personol Person ag Anabledd Print ac na ellir ei gopïo ymhellach (gan gynnwys unrhyw gopïo electronig neu drosglwyddiad) neu ei drin heb ganiatâd neu fel y caniateir gan y gyfraith; a'r

**ii)** teitl, yn ogystal ag enw awdur a chyhoeddwr y gwaith gwreiddiol a'r argraffiad cyhoeddedig y gwnaed y copi ohono.

**8.2.3** dim ond codi tâl am gyflenwi Copi Fformat Hygyrch nad yw'n fwy na chost ei greu a'i gyflenwi gall y Trwyddedai ei wneud;

**8.2.4** bod y Copi Fformat Hygyrch at ddefnydd personol y Person ag Anabledd Print yn unig (neu berson sy'n gweithredu ar ran y Person ag Anabledd Print) sy'n Berson Awdurdodedig; a

**8.2.5** Ni ellir ond dosbarthu Copïau Fformat Hygyrch yn y Deyrnas Unedig er y gellir dosbarthu Copïau Fformat Hygyrch o waith a gyhoeddwyd o fewn y Deyrnas Unedig yn unrhyw aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac yn unrhyw wlad arall sy'n rhan o Gytundeb Marrakesh 2013.

**8.3** Ystyrir Person Awdurdodedig yn "Berson ag Anabledd Print" at ddibenion y cymal hwn os yw ef neu hi yn unigolyn sy'n:

**8.3.1** ddall;

**8.3.2** ag amhariad ar y golwg na ellir ei wella er mwyn rhoi gweithrediad gweledol iddo/iddi sy'n sylweddol gyfatebol i'r hyn sydd gan unigolyn heb amhariad o'r fath;

**8.3.3** ag anabledd canfyddiad neu ddarllen, gan gynnwys dyslecsia, ac o ganlyniad, yn methu darllen gweithiau printiedig yn sylweddol i'r un radd â rhywun heb amhariad neu anabledd;

**8.3.4** ddim, fel arall, oherwydd anabledd corfforol, yn gallu dal neu drin llyfr neu ffocysu neu symud ei lygaid i'r graddau a fyddai fel arfer yn dderbyniol ar gyfer darllen; neu

**8.3.5** a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn unigolyn ag anabledd yn unol ag a.6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**8.4** Nid yw'r cymal hwn yn rhagfarnu ac nid yw'n honni atal neu gyfyngu ar unrhyw weithred na fyddai, yn rhinwedd ei wneud, ac yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 ("y Ddeddf") yn torri hawlfraint, gan gynnwys pan fo'r Trwyddedai yn gorff awdurdodedig o dan y Ddeddf, h.y. yn sefydliad addysgol neu'n gorff nad yw'n cael ei gynnal er elw, a all wneud, cyfathrebu, darparu neu fenthyca copïau hygyrch (a chreu copïau canolraddol er mwyn gwneud hynny) yn ddarostyngedig i ac yn unol â thelerau perthnasol y Ddeddf.

## 9. Hysbysu staff y Trwyddedai

**9.1** Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod ei holl staff (ac yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am offer reprograffig a sganio) yn ymwybodol o delerau ac amodau'r Drwydded, gan gynnwys yr eithrio o weithiau a chategorïau gwaith penodol, ac y byddant yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob Person Awdurdodedig yn cydymffurfio â'r telerau a'r amodau hynny. Yn benodol, bydd y Trwyddedai yn sicrhau lle bo'n rhesymol ymarferol fod copïau o unrhyw ganllawiau i ddefnyddwyr a deunyddiau cymorth perthnasol eraill fel y'u cyflenwir gan CLA neu sydd ar gael ar wefan CLA yn cael eu harddangos wrth ymyl pob peiriant llungopïo a/neu sganio sydd mewn lleoliad sefydlog, ac wrth ymyl unrhyw a phob offer reprograffig, a bod sylw pob Person Awdurdodedig yn cael ei dynnu atynt.

**9.2** Bydd y Trwyddedai yn penodi Person Awdurdodedig yn Gydlynydd Trwydded CLA ar gyfer cysylltu â CLA ynghylch gweinyddu a gweithredu'r Drwydded.

## 10. Casglu Data

**10.1** Dim ond unwaith y flwyddyn, gall CLA ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai gymryd rhan mewn ymarfer casglu data er mwyn nodi'r math o lungopïo a sganio Deunydd Trwyddedig a'r defnydd neu'r ailddefnydd o Ddeunydd Digidol o dan y Drwydded a fydd yn cynorthwyo CLA i ddosbarthu Ffi'r Drwydded i awduron, artistiaid a chyhoeddwyr

**10.2** Gall yr ymarfer casglu data, heb gyfyngiad, fod ar ffurf arolwg neu ymarfer cofnodi neu adrodd ar-lein neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, gan gynnwys cofnodi creu Copïau Digidol, yn unol ag unrhyw ganllawiau ar gasglu data ar wefan CLA.

**10.3** Os caiff ei ddewis gan CLA i gymryd rhan mewn ymarfer casglu data, bydd y Trwyddedai yn cydweithredu â CLA i gynnal yr ymarfer casglu data ac yn ymrwymo i sicrhau bod ei staff yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y cymal hwn.

**10.4** Mae CLA yn ymrwymo i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i unrhyw gasglu data ac eithrio:

**10.4.1** fel sy'n ofynnol gan lys neu awdurdod arall o awdurdodaeth gymwys; neu

**10.4.2** ar ffurf gyfanredol lle na ellir adnabod y Trwyddedai yn uniongyrchol.

**10.5** Rhaid i unrhyw arolwg neu ymarfer cadw cofnodion gynnwys pob Copi Hygyrch.

## 11. Indemniad

**11.1** Yn y cymal hwn bydd "Hawliad Cymwys" yn golygu unrhyw gŵyn a wneir yn ysgrifenedig bod y Trwyddedai sy'n gweithredu o dan y Drwydded hon wedi torri hawlfraint a/neu hawl cronfa ddata mewn Deunydd Trwyddedig neu yn nhrefniadau argraffyddol y rhifyn cyhoeddedig y mae'r Deunydd Trwyddedig wedi'i gynnwys ynddo.

**11.2** Yn achos unrhyw Hawliad Cymwys, bydd CLA yn indemnio'r Trwyddedai mewn perthynas â'r holl gostau cyfreithiol rhesymol, treuliau ac iawndal a ddyfernir yn erbyn neu a ysgwyddir gan y Trwyddedai gan gynnwys unrhyw daliadau ex gratia a wnaed gyda chydsyniad ysgrifenedig blaenorol CLA, ar yr amod bod y Trwyddedai wedi cydymffurfio â thelerau'r Drwydded hon ac wedi hysbysu CLA o unrhyw Hawliad Cymwys o fewn deg (10) diwrnod gwaith neu, yn achos Ffurflen Hawlio, o fewn pump (5) diwrnod gwaith i honno ddod i law'r Trwyddedai.

**11.3** Ni fydd yr indemniad a roddir gan y cymal hwn yn berthnasol:

**11.3.1** os yw'r Trwyddedai yn torri unrhyw delerau'r Drwydded yn sylweddol; neu

**11.3.2** yn ystod unrhyw gyfnod, neu mewn perthynas â materion sy'n codi yn ystod cyfnod o'r fath, tra bo'r Drwydded yn cael ei hatal yn unol â chymal 12.

**11.4** Bydd CLA yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw drafodaethau ar gyfer setlo unrhyw Hawliad Cymwys ac os na ellir datrys y cyfryw Hawliad Cymwys drwy negodi, bydd CLA yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gynnal amddiffyniad y cyfryw Hawliad Cymwys. Bydd y Trwyddedai yn cydweithredu â CLA yn hyn o beth lle bydd CLA yn gofyn yn rhesymol iddynt wneud hynny.

**11.5** Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na fydd unrhyw addefiad, na chynnig taliad neu indemniad yn cael ei wneud neu ei roi gan neu ar ei ran nac ar ran CLA heb gydsyniad ysgrifenedig CLA a bydd yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth a dderbynnir mewn cysylltiad â Hawliad Cymwys yn cael eu trosglwyddo'n brydlon i CLA.

## 12. Tramgwyddo a therfynu

**12.1** Ac eithrio yn achos colegau addysg bellach sydd â thrwydded cyfnod penodol o dair blynedd, a fydd yn parhau am hyd y tymor llawn, neu oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig, gall naill ai CLA neu'r Trwyddedai derfynu'r Drwydded ar ôl cyflwyno o leiaf 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig er mwyn terfynu ar ddiwedd pob Blwyddyn Drwydded.

**12.2** Os bydd y Trwyddedai yn cyflawni unrhyw dramgwyddo o bwys o unrhyw un o delerau ac amodau'r Drwydded hon (tramgwydd o'r fath i gynnwys peidio â thalu Ffi'r Drwydded gan neu ar ran y Trwyddedai) ac yn parhau i dramgwyddo 14 diwrnod ar ôl derbyn rhybudd i unioni unrhyw dramgwydd o'r fath (lle mae'r tramgwydd yn adferadwy), yna gall CLA drwy rybudd, heb ragfarnu unrhyw un o'i hawliau eraill, naill ai derfynu neu atal telerau'r Drwydded nes y bydd CLA yn fodlon na fydd y cyfryw dramgwyddau yn digwydd eto.

**12.3** Ar ôl terfynu'r Drwydded, am ba reswm bynnag, bydd y Trwyddedai yn dileu ar unwaith o yriannau caled ei holl weinyddion canolog a lleol unrhyw Gopïau Digidol y gallai fod wedi'u storio yno (ac eithrio'r Copïau Digidol hynny y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'w cadw), ac ar gais ysgrifenedig gan CLA bydd y Trwyddedai yn ardystio ei fod wedi gwneud hynny.

## 13. Cyffredinol

**13.1** Bydd yr holl hysbysiadau a roddir o dan y Drwydded oni nodir yn wahanol, yn ysgrifenedig ac yn cael eu hanfon drwy bost dosbarth cyntaf, yn achos y Trwyddedai at y cyfeiriad a roddwyd ar gyfer cyfathrebu o'r fath, ac yn achos CLA at ei swyddfa gofrestredig fel y nodir ar ei wefan www.cla.co.uk (neu unrhyw gyfeiriad a roddwyd i'r Trwyddedai gan CLA), neu drwy e-bost at: education.customers@cla.co.uk a bernir y byddant wedi'u cyflwyno ar yr ail ddiwrnod gwaith (a fydd yn eithrio penwythnosau a gwyliau cyhoeddus Lloegr) yn dilyn y dyddiad postio yn achos hysbysiadau drwy'r post a'r diwrnod gwaith nesaf yn dilyn dyddiad anfon e-bost.

**13.2** Gellir amrywio'r Drwydded dim ond os cydnabyddir amrywiad o'r fath yn ysgrifenedig ar ran CLA a'r Trwyddedai.

**13.3** Mae'r Drwydded yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni ellir ei haseinio na'i gwaredu fel arall yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

**13.4** Bydd y Drwydded yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr ac mae'r partïon yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Lloegr o ran unrhyw hawliad neu fater sy'n codi mewn perthynas â'r Drwydded.

**13.5** Nid yw'r partïon yn bwriadu y gellir gorfodi unrhyw un o delerau'r drwydded yn unig yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Drwydded.

**13.6** Bydd gan CLA yr hawl, wrth roi rhybudd rhesymol i'r Trwyddedai, i gael mynediad i adeilad y Trwyddedai i adolygu gweithrediad y Drwydded gan y Trwyddedai a'i gydymffurfiad â'i thelerau ac i archwilio'r gweithdrefnau a ddefnyddir ganddo.